

# Amserlen diwygiedig ar gyfer ystyried:

## Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Iechyd a Gofal

Tachwedd 2021

Ar 14 Medi 2021, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(i), i wahodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Iechyd a Gofal, ac i gyflwyno adroddiad arno.

Yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(ii), cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgorau gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 4 Tachwedd 2021.

Yn y cyfarfod ar 28 Medi 2021, cytunodd y Pwyllgor Busnes i ymestyn y dyddiad ar gyfer cyflwyno adroddiad i 11 Tachwedd 2021.

Ar 4 Tachwedd, cytunodd y Pwyllgor Busnes i ymestyn ymhellach i 16 Rhagfyr.

